

# Tyfu Canolbarth Cymru
# mis Ebrill 2024

**Croeso i lythyr newyddion mis Ebrill!**

Wrth i ni weld cyffro'r gwanwyn o'n cwmpas, rydym yn gweld hefyd bod cyffro'n perthyn i'r cynnydd a wneir yng nghyswllt Bargen Twf Canolbarth Cymru. Rydym wrth ein bodd o allu rhannu â chi y camau bras sydd wedi'u cymryd, ac wrth i'r achosion busnes ddatblygu ymhellach mae cyfleoedd trawsnewidiol yn cael eu creu yn ein rhanbarth.

Dros yr ychydig fisoedd sydd wedi pasio ers i ni rannu ein diweddariad diwethaf ynghylch y Fargen Twf, mae ein tîm ymroddedig wedi bod wrthi'n ddiwyd yn cydweithio â noddwyr prosiectau, y llywodraeth a rhanddeiliaid allweddol i symud Bargen Twf Canolbarth Cymru yn ei blaen. Gyda'n gilydd, rydym yn creu dyfodol lle bydd y canolbarth yn ffynnu fel canolfan ar gyfer arloesi, cyfleoedd a thwf cynaliadwy.

Peter Jones, Rheolwr Prosiectau a Pherfformiad y Fargen Twf, yw'r cydweithiwr sy'n cael sylw yn ein colofn *Cwrdd â'r Tîm* y mis hwn. Mae Peter yn taflu goleuni ar ei rôl ac ar y cyfleoedd cyffrous y bydd y Fargen Twf yn esgor arnynt i'r canolbarth yn ei farn ef.

Yn rhan o waith Tyfu Canolbarth Cymru ym maes ynni, cynhaliwyd ein digwyddiad Datrysiadau Busnes Cynaliadwy ar 11 Mawrth. Gallwch ddarllen mwy am y modd y daeth y digwyddiad ag arweinwyr diwydiant, arbenigwyr a busnesau ynghyd i archwilio ffyrdd o leihau eu hallyriadau nwyon tŷ gwydr a'u costau ynni yma.

**Cymryd rhan:**

Mae eich mewnbwn yn amhrisiadwy wrth i ni barhau i bennu ffurf Tyfu Canolbarth Cymru. P'un a ydych yn berchennog busnes, yn rhywun sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus neu'r sector preifat, yn arweinydd cymunedol neu'n un o drigolion y rhanbarth y mae ei ddyfodol yn bwysig i chi, mae sawl ffordd y gallwch gymryd rhan:

- Mynychu fforymau cymunedol a chyfarfodydd i randdeiliaid er mwyn rhannu eich syniadau a'ch adborth.
- Dod i wybod am y newyddion diweddaraf trwy ein llythyrau newyddion, ein diweddariadau ar y wefan a'n sianelau ar gyfryngau cymdeithasol.
- Cydweithio â ni ar brosiectau a mentrau sy'n cyd-fynd â'ch arbenigedd a'ch diddordebau.
- Bod yn eiriol dros Tyfu Canolbarth Cymru yn eich rhwydweithiau ac ymhlith y sawl sy'n gwneud penderfyniadau.

Gyda'n gilydd, gallwn greu dyfodol mwy disglair i'r canolbarth, lle caiff ffyniant ei rannu a lle mae digonedd o gyfleoedd i bawb.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus a'ch ymrwymiad i'n gweledigaeth gyffredin. Gadewch i ni barhau ar y daith hon o dyfu a datblygu, un cam ar y tro.

*Tîm Tyfu Canolbarth Cymru*

[Clawr: Cwm Elan, Powys ©Croeso Cymru]



*1 - Digwyddiad Datrysiadau Busnes Cynaliadwy*

## Cynnwys


- Diweddariad ynghylch Bargen Twf Canolbarth Cymru
- Cynnydd o ran y Portffolio
- Arolwg Cysylltedd Digidol i Fusnesau
- FFOCWS: Prosiect Bargen Twf Cyntaf Canolbarth Cymru wedi rhoi golau gwyrdd i gam olaf datblygu achosion busnes
- Astudiaeth Achos: Prosiect Llynnoedd Cwm Elan

- Cwrdd â’r Tîm: Peter Jones  - Rheolwr Prosiectau a Pherfformiad y Fargen Twf
- Newyddion eraill

# Diweddariad ynghylch Bargen Twf Canolbarth Cymru

# Cynnydd o ran y Portffolio

### Prosiectau



Mae cynnydd da yn cael ei wneud gyda'r naw prosiect annibynnol. Bellach, mae pob un ohonynt wedi mynd drwy gyfnod yr Achos Amlinellol Strategol ar gyfer datblygu achosion busnes ac mae pob un (ac eithrio prosiect Llynnoedd Cwm Elan, darllenwch mwy am brosiect hyn nes ymlaen) yn gweithio drwy eu Hachosion Busnes Amlinellol. Gellir gweld crynodeb o'r prosiectau ar ein gwefan.

Mae Peter, Rheolwr Prosiectau a Pherfformiad y Fargen Twf (gallwch ddarllen mwy am rôl Peter yn nes ymlaen yn yr adran ‘Cwrdd â’r Tîm’), wedi bod yn ymgysylltu â noddwyr yr holl brosiectau gan feithrin perthynas waith agosach â nhw a darparu cymorth ac arweiniad ynghylch datblygu prosiectau.

### Y Rhaglen Ddigidol

Ar hyn o bryd mae'r Rhaglen Ddigidol yn cwblhau'r broses gaffael i gyflawni prosiect Mapio Data Symudol. Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar fapio manwl o ddarpariaeth symudol a chapasiti ar draws y rhanbarth, gan ddarparu llawer mwy o fewnwelediadau i ddata sydd ar gael ar hyn o bryd, ac nid yw'r dull gweithredu wedi'i gymhwyso ar y raddfa hon o'r blaen.

Yn ogystal â hyn, bydd y Rhaglen yn caffael cwblhau prosiect cyn bo hir a fydd yn canolbwyntio ar fathau eraill o gysylltedd digidol fel band eang a LoRaWAN, yn ogystal ag isadeiledd perthnasol y rhanbarthau. Mae'r ddau brosiect yn cael eu hariannu drwy Gyllid Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, gyda'r nod o gasglu a mapio data i ddarparu darlun cyflawn o statws cysylltedd band eang, symudol a LoRaWAN presennol ac yn y dyfodol ledled Ceredigion a Phowys.

Bydd y ddau brosiect yn llywio gwaith y rhaglen ddigidol ehangach gan fod angen dealltwriaeth fanwl i nodi lle mae seilwaith digidol ar ei wanaf, lle mae ymyriadau eraill wedi'u cynllunio, a lle mae angen ymyrraeth bellach. Bydd y gwaith o ddosbarthu a chasglu data ar gyfer y prosiect yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf gyda chwblhau'r prosiect wedi'i drefnu ar gyfer yr Hydref.

I ategu'r gwaith mapio ac i asesu'n well anghenion busnesau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, mae'r Rhaglen Ddigidol yn cynnal Arolwg Cysylltedd Digidol i Fusnesau. Nod yr arolwg yw ymgysylltu â chynifer ag sy'n bosibl o fusnesau ar draws y rhanbarth er mwyn deall eu hanghenion ar hyn o bryd o ran seilwaith, casglu data ynghylch hynny, a chael adborth ynghylch addasrwydd y seilwaith ar gyfer gweithrediadau busnes. Bydd y data hwn yn werthfawr o safbwynt cael data gwaelodlin ac o safbwynt llunio cymariaethau wrth gynnal yr arolwg eto yn y dyfodol i werthuso effaith prosiectau a gyflawnir gan y Rhaglen Ddigidol.

Bydd yr arolwg yn dod i ben ar **24/05/24.** Gallwch gymryd rhan ynddo yma: https://bit.ly/BusinessDigitalSurvey (Defnyddiwch y gwymplen 'English' ar y dde i newid i'r ffurflen Gymraeg) Ymunwch â ni wrth lunio cysylltedd digidol yn ein rhanbarth! Rhannwch yr arolwg dros y cyfryngau cymdeithasol, ar X a LinkedIn.




**Ar beth arall y mae'r Rhaglen Ddigidol yn gweithio?**

Mae'r Rhaglen Ddigidol yn parhau i symud y prosiectau cyfalaf, sydd â ffocws, trwy'r camau perthnasol o ddatblygu eu hachosion busnes unigol. Y bwriad ar hyn o bryd yw cwblhau'r Achosion Busnes Amlinellol dros y misoedd nesaf ar gyfer y Prosiect Signal Ffonau Symudol 4G+ a'r Prosiect ar gyfer Eiddo Anodd Iawn ei Gyrraedd, a bod mewn sefyllfa i gael cymeradwyaeth gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru i symud ymlaen i'r Achos Busnes Llawn a'r gwaith cyflawni.

Yn ddiweddar, mae dau brosiect arfaethedig arall wedi'u nodi ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr achosion strategol ar gyfer y ddau:

- **Prosiect Ysgogi y rhyngrwyd pethau (IOT)/LoRaWAN**: Nod y prosiect hwn yw cynyddu cwmpas technolegau IOT a LoRaWAN mewn gweithrediadau busnes, a’r graddau y manteisir arnynt, ar draws sawl sector yn y rhanbarth er mwyn gwella effeithlonrwydd, cynyddu cyfleoedd a sicrhau arbedion o ran costau.
- **Prosiect Canolfannau Digidol:** Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar integreiddio datrysiadau digidol uwch mewn mannau cyhoeddus priodol a fydd yn troi’n Ganolfannau Digidol dynamig.

## FFOCWS: Prosiect Bargen Twf Cyntaf wedi rhoi golau gwyrdd i gam olaf datblygu achosion busnes






Yn ystod ei gyfarfod ar 19 Ebrill, rhoddodd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru gymeradwyaeth i'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer prosiect Llynnoedd Cwm Elan. Mae'r penderfyniad hwn yn garreg filltir bwysig i'r Cynllun Twf fel y prosiect cyntaf i symud ymlaen i'r cam nesaf o ddatblygu o dan gymeradwyaeth y Bwrdd.

Gyda'r garreg filltir hon wedi'i chyflawni, mae'r prosiect bellach ar fin symud ymlaen tuag at gwblhau Achos Busnes Llawn gynhwysfawr: y cam olaf hanfodol sydd ei angen i sicrhau cyllid y Cynllun Twf cyn ei weithredu*.

O glywed y newyddion, dyma a oedd gan Martin Driscoll, Uwch-berchennog Cyfrifol prosiect Llynnoedd Cwm Elan a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Busnes a Phobl, Dŵr Cymru, i'w ddweud: "Rydym yn falch bod y prosiect wedi cyrraedd cam mor bwysig wrth i ni anelu at greu cyrchfan o'r radd flaenaf yn y Canolbarth. Credwn y bydd yn allweddol o safbwynt cyflawni un o feysydd blaenoriaeth y Fargen Twf, sef cael Cynnig Twristiaeth Gryfach. Nod y prosiect yw gwella'r profiad i ymwelwyr, cynyddu refeniw a chynnal harddwch ac amgylchedd naturiol Cwm Elan. Edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio â thîm Bargen Twf Canolbarth Cymru i gael y maen i'r wal."

Dywedodd llefarydd ar ran Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru: "Roeddem yn falch o gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect hwn yn ein Bwrdd yn ddiweddar; carreg filltir gyffrous fel y prosiect cyntaf i gyrraedd y cam hwn gyda Bargen Twf Canolbarth Cymru hyd yn hyn. Yn y cyfnod Achos Busnes Llawn, bydd y gwaith caled yn parhau wrth i'r manylion cyllid a chaffael manwl gael eu cwblhau, a byddwn yn gwneud yr hyn a allwn i weld buddsoddiad y Cynllun Twf yn cael ei ysgogi i'w lawn botensial a denu buddsoddiad i'r rhanbarth i wella a gwella ein cynnig twristiaeth."

Darllenwch yr erthygl lawn ar ein tudalen Newyddion.

## Astudiaeth Achos: Prosiect Llynnoedd Cwm Elan

Mae Cwm Elan yn atyniad eiconig i ymwelwyr, sydd â threftadaeth unigryw, argaeau a llynnoedd trawiadol a thirwedd epig. Mae'n hafan i fywyd gwyllt ac mae'n cynnig cyfleoedd hamdden i bobl o'r ardal leol, o'r rhanbarth a thu hwnt.

Mae Cwm Elan yn gorchuddio 1% o arwynebedd tir Cymru ac mae ganddo ystod eang o asedau o ran byd natur a'r dirwedd, sy'n cynnwys safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig, parc rhyngwladol wybren dywyll a fforest law Geltaidd.

Mae prosiect Llynnoedd Cwm Elan, sy'n rhaglen ddatblygu fawr gwerth £21.7 miliwn, yn ceisio cyllid gan Fargen Twf Canolbarth Cymru dros gyfnod seilwaith o 5 mlynedd.

Mae cynnig Llynnoedd Cwm Elan wedi'i wreiddio ym mlaenoriaethau twf strategol y Fargen Twf, yn gymaint â'i fod yn cynnig twristiaeth gynaliadwy ar ffurf cyrchfan o'r radd flaenaf i ymwelwyr, sy'n cynnwys gwella cyfleusterau a seilwaith presennol a darparu cyfleusterau a gwasanaethau newydd i'r cyhoedd eu mwynhau.

Dyma'r 6 phrif elfen sy'n rhan o gynnig Llynnoedd Cwm Elan:

- Ailddatblygu ac ehangu'r Canolfan Ymwelwyr
- Datblygiad melin lifio fel hwb ar gyfer chwaraeon dŵr a digwyddiadau
- Llety o ansawdd uchel, gan gynnwys podiau glampio
- Uwchraddio llwybrau troed a llwybrau beicio
- Rheoli cadwraeth coetir
- Cyflenwad ynni gwyrdd trwy gysylltiadau â'r prif gylch ynni dŵr.

Bydd cynnig Llynnoedd Cwm Elan yn cael ei weithredu gan Dŵr Cymru a fydd yn gwneud cyfraniad ariannol sylweddol i'r buddsoddiad cyfalaf. Pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau, bydd Anturiaethau Dŵr Cymru, sef yr adran o fewn Dŵr Cymru sy'n rheoli ei atyniadau hamdden, yn rheoli ac yn gweithredu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau.

Tra mae'r gwaith o ddatblygu'r Achos Busnes Llawn yn mynd rhagddo mae noddwr y prosiect, sef Dŵr Cymru, yn bwrw ymlaen hefyd â'r cerrig milltir allweddol nesaf yn natblygiad y prosiect ac mae wedi penodi pensaer i ddarparu Dyluniadau RIBA Cam 2 a 3.

# Cwrdd â'r Tîm

## Peter Jones - Rheolwr Prosiectau a Pherfformiad y Fargen Twf



***Pryd y gwnaethoch ddechrau gyda'r tîm?***

*Ymunais â Swyddfa Rheoli Portffolio Bargen Twf Canolbarth Cymru ym mis Rhagfyr 2023 fel Rheolwr Prosiectau a Pherfformiad. Roeddwn wedi ymddeol yn gynnar cyn hynny, yn 2018, ond roeddwn yn teimlo bod potensial Bargen Twf Canolbarth Cymru yn her ac yn gyfle cyffrous, felly dyma fi'n dychwelyd i'r gweithle. Hyderaf y bydd fy mhrofiad yn gallu cyfrannu at lwyddiant y Fargen Twf.*

***Allwch chi ddweud mwy wrthym am eich rôl?***

*Ar hyn o bryd, mae gan Fargen Twf Canolbarth Cymru naw o brosiectau byw a ddewiswyd yn rhan o'r garfan gychwynnol o fentrau i'w datblygu. Mae'r prosiectau hynny'n brysur yn gweithio'u ffordd trwy'r model 5 achos a bennwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i sicrhau cyllid cyfalaf. Yn syml, mae ar y prosiectau angen y cyllid sydd ar gael trwy Fargen Twf Canolbarth Cymru, ac yn gyfnewid am hynny mae angen i Tyfu Canolbarth Cymru deimlo'n hyderus y bydd y buddsoddiad yn cael effaith gadarnhaol ar economi'r canolbarth. Mae angen i Swyddfa'r Portffolio gynnig tryloywder a sicrwydd wrth i raglenni a phrosiectau fynd ar y daith honno. Fy rôl i yw ceisio creu partneriaeth gadarn rhwng Bargen Twf Canolbarth Cymru a'r prosiectau, dangos y cynnydd a wneir i aelodau Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, a deall yr heriau a'r problemau newydd sy'n wynebu'r prosiectau a'u cynorthwyo i ddod o hyd i atebion ymarferol lle bynnag y bo'n bosibl.*

***Beth yw eich blaenoriaethau presennol?***

*Mae'n ddyddiau cymharol gynnar i mi yn y swydd o hyd. Rwyf wedi mynd ati o ddifrif i sicrhau fy mod yn deall proses y model 5 achos a bennwyd a'r prosiectau amrywiol sy'n rhan o Fargen Twf Canolbarth Cymru ar hyn o bryd. Rwyf wedi cysylltu â phob un ohonynt ac wedi llwyddo i ymweld yn*

*bersonol â'r rhan fwyaf ohonynt. Mae hynny wedi bod yn hanfodol yn fy marn i er mwyn ymgyfarwyddo â phob datblygiad. Rwy'n credu bod hynny'n gallu bod yn anodd iawn weithiau trwy gyfrwng technoleg megis cyfarfodydd rhithiol. Rhaid i ni geisio cael y cydbwysedd cywir yn ein dulliau o ryngweithio â phrosiectau.*

*Rwyf hefyd wedi bod yn datblygu camau cyntaf fframwaith gwireddu manteision. Bydd hynny'n galluogi'r prosiectau i ddefnyddio dull gweddol gyson o reoli manteision, gan safoni trefniadau monitro lle bo'n briodol a'n galluogi i ddod i farn yn gynnar ynghylch ffurf bosibl y gwaith pwysig o werthuso ar ôl cyflawni. Bydd yn hanfodol crynhoi'r wybodaeth hon mewn modd trefnus er mwyn galluogi Tyfu Canolbarth Cymru a'i randdeiliaid allweddol i werthuso llwyddiant Bargen Twf Canolbarth Cymru dros amser.*

*Rwyf wedi bod yn gweithio hefyd ar sut y gallem adrodd ynghylch cynnydd y prosiectau, a'r trefniadau y byddai eu hangen er mwyn galluogi hynny i ddigwydd. Mae osgoi dyblygu ymdrechion pob prosiect o safbwynt gwaith adrodd, a sicrhau ar yr un pryd bod Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn gweld cynnydd ac yn cael y sicrwydd y mae arno ei angen, yn ystyriaethau hanfodol. Mae cael y cydbwysedd cywir yn hanfodol felly, ac ni ellir cyflawni hynny heb drafod â rheolwyr prosiectau unigol y trefniadau sydd ganddynt yn barod ar gyfer adrodd, a chael eglurder gan y Bwrdd ynghylch ei ddisgwyliadau.*



*2 - Peter yn ystod ymweliad â phrosiect Llynnoedd Cwm Elan, Powys*

***Pa ddatblygiadau yr hoffech eu gweld yn ystod y 12 mis nesaf?***

*Er ei bod yn ddyddiau cynnar o hyd, mae fy arsylwadau cychwynnol yn awgrymu bod creu ymdeimlad o bartneriaeth yn elfen hanfodol o sicrhau bod Bargen Twf Canolbarth Cymru yn cael ei chyflawni'n llwyddiannus. Rwyf am sicrhau bod pob prosiect unigol yn teimlo'n rhan o gyfuniad ehangach o fentrau, a'n bod i gyd yn rhan o'r un teulu. Mae trafodaethau cychwynnol â rhai o'r rheolwyr yn awgrymu y byddai cael rhwydwaith rheoli prosiectau yn ddatblygiad gwerthfawr o safbwynt cryfhau*

*ymhellach ein hymdrechion ar y cyd i gyflawni'n llwyddiannus amcanion strategol Bargen Twf Canolbarth Cymru i sicrhau buddsoddiad ychwanegol, creu swyddi a gwella cynhyrchiant economaidd ar draws y canolbarth. Gallai creu'r amgylchedd iawn i rannu llwyddiant ein gilydd, gan nodi a datrys problemau a heriau cyffredin, fod yn ffordd adeiladol ymlaen.*

***A chithau'n newydd i'r swydd, pa gyfleoedd yr ydych yn gweld Bargen Twf Canolbarth Cymru yn eu cynnig i'r rhanbarth?***

*Yn y darlun mawr, nid yw £110 miliwn yn swm enfawr. Fodd bynnag, i'r canolbarth mae'n gyfle o bwys. Mae proses drylwyr wedi arwain at ddewis dwy raglen a naw prosiect byw, ac maent wrthi'n datblygu eu hachosion busnes gan ddefnyddio'r model 5 achos. Mae rhai'n gweld y golau ar ddiwedd proses sy'n gymhleth ac yn rhwystredig, ac mae hynny'n rhywbeth i'w ddathlu. Bydd cyflawni'n llwyddiannus yn esgor ar welliannau sylweddol i economi'r canolbarth ac i'r rheiny ohonom sy'n byw yma. Bydd galw mawr am gyllid bob amser. Bydd cyflawni'n llwyddiannus ddatblygiadau sy'n rhai "sylweddol" yn fy marn i'n cynnig y budd ychwanegol o ddenu buddsoddiad preifat pellach i'r canolbarth, a dylai hynny fod yn flaenoriaeth:*

- Bydd busnesau'n elwa o'r cyfleoedd sy'n dod i'r amlwg ym maes ymchwil ac arloesi.
- Bydd yr unedau a ddatblygir gennym yn cael eu llenwi â chapasiti gweithgynhyrchu.
- Bydd unigolion yn manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael iddynt o ran datblygu sgiliau a dilyn prentisiaethau.
- Bydd ymwelwyr yn gallu mwynhau'r ystod o gyfleoedd hamdden a fydd ar gael.

*Bydd pob un o'r pedair agwedd yn creu ac yn diogelu swyddi ac yn gwella lefelau cynhyrchiant yn economi'r canolbarth, gan gadarnhau ymhellach bod y canolbarth yn lle gwych i fyw a gweithio ynddo. Mae'n bosibl y bydd angen i ni gymryd ambell risg i'n helpu ar hyd y daith honno, gan ddangos ffydd a hyder yn y partneriaid yr ydym yn gweithio ochr yn ochr â nhw. Rhaid i ni sicrhau ein bod yn hwyluso cynnydd yn hytrach na'i fygu.*

***Beth yw eich cyflawniad mwyaf?***

*Nid oes gan fy nghyflawniad mwyaf ddim i'w wneud â'm gwaith. Ymhell uwchlaw popeth arall, fy nghyflawniad mwyaf a'r hyn sy'n rhoi'r pleser mwyaf i mi o bell ffordd yw fy nheulu. Rwy'n dad balch i bump o blant hardd, llwyddiannus ac iach, a hyd yn hyn rwy'n daid i bedwar o wyrion rhyfeddol. Alla i ddim meddwl am unrhyw beth a allai ragori ar hynny.*

***Un gair sy'n crynhoi Tîm Tyfu Canolbarth Cymru:***

*Gallwn i awgrymu eu bod nhw'n 'rhwystredig' weithiau, ond gallaf ddweud yn bendant eu bod bob amser yn 'ymroddedig'.*

# Newyddion eraill

## 40fed pen-blwydd gwasanaeth ymroddedig mewn llywodraeth leol



🎉Mae Tîm Tyfu Canolbarth Cymru yn dymuno llongyfarch ein cydweithiwr, Ann Elias ar ei phen-blwydd yn 40 mlynedd ddiweddar o wasanaeth ymroddedig mewn llywodraeth leol. Mae hi wedi dangos ymrwymiad ac ymroddiad diwyro i'w gwaith drwy gydol y cyfnod hwn, ac mae'n parhau i gael effaith sylweddol ar drafnidiaeth ranbarthol yng Nghanolbarth Cymru.

Llongyfarchiadau Ann, diolch am eich ymrwymiad a'ch cyfeillgarwch parhaus. 🎉

## Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru

Yn ddiweddar, roedd trafodaethau cyffrous wedi bod yng ngweithdy Recriwtio, Cadw a Sgiliau Sector Cyhoeddus Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru a hwyluswyd gan Wavehill Gyda'n gilydd, rydym yn adeiladu gweithlu cryfach ar gyfer ein cymuned.



## Edrychwch a ydych yn gymwys am grant i leihau costau rhedeg busnes

Gall busnesau micro, bach a chanolig yn y sectorau manwerthu, lletygarwch a hamdden nawr edrych i weld a ydyn nhw'n gymwys am gymorth gan Lywodraeth Cymru i'w helpu i leihau eu costau.

Mae grantiau o £5,000 i £10,000 ar gael trwy Gronfa Paratoi at y Dyfodol i helpu busnesau i fuddsoddi mewn technoleg ynni adnewyddadwy, gwella adeiladwaith eu busnesau neu brynu systemau neu beiriannau i leihau eu defnydd o ynni.

Gweler y gwiriwr cymhwystra: [Cronfa paratoi at y dyfodol | Busnes Cymru (gov.wales)]()

Mae Busnes Cymru yn cynnal cyfres o weminarau i'ch arwain drwy'r broses 👉
https://ow.ly/qrEQ50Rm3FF




## Seminarau ynni rhithwir am ddim 🌍

Mae tîm Ynni Cymru wedi trefnu cyfres o seminarau ynni rhithwir am ddim a fydd yn eich helpu i ddeall a llywio systemau ynni heddiw er mwyn helpu gyda'n gilydd i ddylunio system ynni sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

Pwy ddylai fod yn bresennol? 👉 Unigolion o sefydliadau a mentrau ynni cymunedol 👉 Swyddogion o awdurdodau lleol a sefydliadau sector cyhoeddus eraill sydd â diddordeb mewn systemau ynni 👉 BBaCh sydd â diddordeb mewn datblygiadau ynni 👉 Unrhyw un sydd â diddordeb cyffredinol mewn dysgu mwy am ynni a gwaith Ynni Cymru

Y tair seminar yw:

📅 8 Mai – cysyniadau hanfodol ar gyfer deall systemau ynni >>> https://lnkd.in/eamUXibS

📅 15 Mai – agweddau allweddol a heriau'r newid i systemau ynni sero net >>> https://lnkd.in/eAZWqdQi

📅 22 Mai – systemau ynni lleol clyfar >>> https://lnkd.in/ec2Tr3zM

Mwy o wybodaeth yma (LinkedIn yn unig): https://www.linkedin.com/posts/local-partnerships-llp_seminarau-ynni-rhithwir-am-ddim-fel-activity-7188084189731147776-BFyY/?utm_source=combined_share_message&utm_medium=member_desktop

## Edrych ymlaen

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy'n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy'n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad: Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi'n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales